

Emynau Dechrau Blwyddyn

Ti sy'n llywio rhod yr amser
Ac yn creu pob newydd ddydd,
Gwrando, Iôr, ein deisyfiadau
A chryfha yn awr ein ffydd.
Ynot y cawn oll fodolaeth,
Ti yw grym ein bywyd ni,
'Rwyt Greawdwr a Chynhaliwr,
Ystyr amser ydwyt ti.

Maddau inni oll am gredu
Mai nyni sy'n cynnal byd,
A bod gwaith ein dawn a'n clyfrwch
Dan dy fendith di o hyd.
Gwelwn ffrwyth ein byw rhyfygus
Wrth in heddiw syllu'n ôl,
Argyhoedda ni o'n pechod,
Tyn ni'n rhydd o'n balchder ffôl.

Ein gorwelion sydd mor agos
Fel na wyddom beth sydd draw;
Roddwr graslon y blynyddoedd,
Rhown ein hunain yn dy law.
Pura'n llwyr ein dymuniadau
A'n cymhellion ni bob un,
Nes y byddo'n dyddiau'n gyfan
Yn rhoi clod i ti dy hun.

W. Rhys Nicholas

Ar ddechrau pennod newydd
Ym myd y newid mawr,
Gweddiwn am d'arweiniad
Trugarog yma nawr.
Ar rawd diaros mynd a dod
Rho law dragywydd ar y rhod.

'Does ddydd na mis na blwyddyn
Ar galendr ein Duw,
Ei 'fory sydd ddiamser
Am fod yr Iesu'n fyw.
Ar waethaf pob rhyw dreigladd chwim
Ei sicrwydd ef ni syfla ddim.

Ar ddechrau Ionawr daear
Awn rhagom ar ein taith
Yng ngobaith Cristionogion
Na phylodd oesoedd maith.
Pan fyddo'r byd yn rhifo'i oed
Mae'r Tad yn ieuanc fel erioed.

Am hynny, Dduw'r tragwyddol,
O cadarnha ein ffydd
Ar ddechrau blwyddyn newydd
Yn bererinion rhydd.
Na foed credinwyr byd yn drist
Yn nhestament canrifoedd Crist.

John Roderick Rees

Alaw – ‘Ar Hyd y Nos’

Deuwn oll ar drothwy cyfnod
I foli'r Iôr.

Blwyddyn newydd yma'n barod
I foli'r Iôr.

Er i'r gwyntoedd rhyndllyd daro,
Ac i'r stormydd llym ein blino,
Down i'r hafan yma'n gryno
I foli'r Iôr.

Natur sydd yn araf ddeffro
Yng nghwmni'r Iôr.
Tywydd blin yn raddol gilio
Yng nghwmni'r Iôr.
Ionawr sydd â'i bawen oeraidd,
Chwilio wnawn am loches falmaidd,
Bydded i ni gysur mwynaidd
Yng nghwmni'r Iôr.

Heddiw ar ein llwybrau ceisiwn
Nodded yr Iôr.
Yn ei bresenoldeb teimlwn
Nodded yr Iôr.
Os daw awel groes i'n hymlid,
Gofid yn lle dyddiau gwynfyd,
Cawn ynghanol brwydrau bywyd
Nodded yr Iôr.

Dwynwen Teifi

Alaw – ‘Blwyddyn Newydd Dda i Chi’

Gyda'n gilydd yn dy dŷ,
Deuwn ni'n ieuenctid llon,
Gofyn wnawn am fendith Iôr
Ar y flwyddyn newydd hon.

Er na wyddom beth a fydd,
Diogel fyddwn gyda thi,
Ac os daw awelon croes –
Grym ein ffydd a'n cynnal ni.

Daw y misoedd yn eu tro,
Ambell gwmwl gyda'r gwynt,
Yna'r heulwen yn y nen
Wnaiff ein llonni ar ein hynt.

Awn ymlaen o fis i fis,
Er pob storom lem a ddaw,
A phan gollwn ninnau'r ffordd –
Hyfryd cydio yn dy law.

Dwynwen Teifi